OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 994 (Cy.143)

TIR COMIN, CYMRU

Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*2 Ebrill 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Mai 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan erthygl 19(1)(a) a (d) o Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Mai 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ffurflen" ("*the Form*") yw Ffurflen 21 fel y cafodd ei hamnewid yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966(**3**).

Amnewid ffi newydd

2. Yn Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau—

(a) yn y golofn gyntaf, yn lle'r geiriau "ten pounds" rhodder y geiriau "twenty pounds"; a

(b) yn yr ail golofn, yn lle'r symiau "£6.00" a "50p" rhodder y symiau "£14.00" a "£1.00" yn eu trefn.

(**1**) 1965 p.64. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 22(1).
(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1966/1471; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1970/1996, 1980/1195 a 1989/2167.